OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 1671

## Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010

## RHAN 5

Amrywiol Ddarpariaethau

**Rhoi hysbysiadau**

**38.**—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan y Rheoliadau hyn, i unrhyw berson, fod mewn ysgrifen, a gellir ei roi iddo—

(a) drwy ei ddanfon i'r person hwnnw;

(b) ei adael yn ei gyfeiriad priodol;

(c) ei anfon ato yn y cyfeiriad hwnnw drwy'r post rhagdaledig; neu

(ch) yn ddarostyngedig i baragraff (9), drwy ei anfon ato mewn cyfathrebiad electronig.

(2) Caniateir rhoi'r hysbysiad i gorff corfforaethol drwy ei roi i swyddog o'r corff hwnnw.

(3) Caniateir rhoi'r hysbysiad i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, partneriaeth Albanaidd neu bartneriaeth anghorfforedig drwy ei roi i bartner neu i berson sydd â rheolaeth ar, neu sy'n rheoli, busnes y bartneriaeth.

(4) Caniateir rhoi'r hysbysiad i unrhyw gorff anghorfforedig arall drwy ei roi i swyddog y corff anghorfforedig.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, ac adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978(**1**) (cyflwyno dogfennau drwy'r post) o ran y modd y'i cymhwysir i'r rheoliad hwn, cyfeiriad priodol unrhyw berson y rhoddir hysbysiad iddo yw—

(a) yn achos corff corfforaethol, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff;

(b) yn achos partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu bartneriaeth Albanaidd, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r bartneriaeth;

(c) yn achos partneriaeth anghorfforedig neu unrhyw gorff anghorfforedig arall, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth neu'r corff;

(ch) yn achos person y rhoddir yr hysbysiad iddo gan ddibynnu ar unrhyw un o baragraffau (2), (3) neu (4), cyfeiriad priodol y corff corfforaethol, partneriaeth neu gorff anghorfforedig arall dan sylw; a

(d) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys diwethaf y person dan sylw.

(6) At ddibenion paragraff (5) mae'r cyfeiriadau at "y brif swyddfa" mewn perthynas â chwmni a gofrestrwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, partneriaeth sy'n cynnal busnes y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ac unrhyw gorff anghorfforedig arall sydd â'i brif swyddfa y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys cyfeiriad, ym mhob achos, i'w prif swyddfa (os oes un) o fewn y Deyrnas Unedig.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys os yw person, sydd i gael hysbysiad o dan y Rheoliadau hyn, wedi pennu mai cyfeiriad o fewn y Deyrnas Unedig ("y cyfeiriad penodedig") sy'n wahanol i'w

(**1**) 1978 p. 30. Diwygiwyd adran 15(1) gan baragraff 158 o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

gyfeiriad priodol (fel y'i penderfynir o dan baragraff (5)) fydd y cyfeiriad lle y bydd ef, neu rywun ar ei ran, yn derbyn dogfennau o'r un disgrifiad â hysbysiad a roddir o dan y Rheoliadau hyn.

(8) Rhaid trin y cyfeiriad penodedig hefyd, at ddibenion y rheoliad hwn ac adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978 yn y modd y'i cymhwysir i'r rheoliad hwn, fel cyfeiriad priodol y person.

(9) Os anfonir hysbysiad, sydd i'w roi i berson o dan y Rheoliadau hyn, mewn cyfathrebiad electronig gan awdurdod gorfodi, nid yw'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei roi—

(a) onid yw'r person y rhoddir yr hysbysiad iddo wedi dynodi wrth yr awdurdod gorfodi ei fod yn fodlon cael hysbysiadau mewn cyfathrebiadau electronig ac wedi darparu cyfeiriad addas at y diben hwnnw; a

(b) onid anfonir yr hysbysiad i'r cyfeiriad a ddarparwyd gan y person hwnnw.

(10) Yn y rheoliad hwn—

nid yw "corff corfforaethol" ("*body corporate*") yn cynnwys partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig na phartneriaeth Albanaidd; ac

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**2**).

(**2**) 2000 p. 7.